MENTER IAITH MAELOR

Swydd Ddisgrifiad

Teitl y Swydd: **Swyddog Prosiect - Dwyieithrwydd mewn Busnes**

Graddfa: Pwynt 29-31 (£24,646 – £26,276)

Lleoliad: Swyddfa Menter Iaith Maelor Tŷ AVOW,21 Stryd Egerton, Wrecsam, LL11 1ND

Yn atebol i: Rheolwr Mentrau Iaith Sir y Fflint a Maelor ac i Fwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Maelor.

Fel y bydd y gwaith yn datblygu , fe all gofynion y swydd newid. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu trafod a'u cytuno a deiliaid y swydd cyn eu mabwysiadu.

Prif Ddyletswyddau:

Gweithio fel aelod blaengar o'r Tîm er mwyn cynghori a chefnogi busnesau bychain yn ardal wledig Wrecsam i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Bod yn brif gyswllt ar gyfer busnesau bychain yn ardal wledig Wrecsam ynghyd a'r ymgynghorwyr a fydd yn cydweithio gyda chi ar y prosiect. Gweinyddu a chydlynu'r prosiect gan gynnwys y cynllun grant er mwyn ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith busnesau. Trefnu, hyrwyddo a marchnata'r prosiect mewn cyfarfodydd a digwyddiadau pwrpasol a gweithredu fel dolen gyswllt ar ran y Grŵp Llywio a'r prif bartneriaid

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYMRU

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MENTER IAITH MAELOR

Cyfrifoldebau Penodol:

1. Ennill a chynnal cysylltiadau busnes, datblygu perthynas waith adeiladol gyda busnesau unigol a chyrff sy'n cynrychioli grwpiau targed.

2. Datblygu cyngor a chefnogaeth a'i gynnig i fusnesau sydd eisiau symud at weithredu'n ddwyieithog

3. Delio gydag ymholiadau wedi eu cyfeirio gan raglenni cefnogi busnes a weithredir gan amrywiol asiantaethau i drefnu apwyntiadau i gyflwyno'r cynllun grant a'r gefnogaeth i lunio polisïau iaith.

4. Cydlynu gwaith y Grŵp Llywio a gweinyddu'r cynllun ar gyfer y prosiect "Dwyieithrwydd mewn Busnes" gan gynnwys y cynllun grant, sydd wedi ei llunio'n benodol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg i ficro fentrau yn ardaloedd gwledig Wrecsam.

5. Cydweithio gyda phartneriaid ac ymgynghorwyr Menter Iaith Maelor gan sicrhau bod y gwaith y Fenter a'i phartneriaid yn cydredeg yn effeithiol

6. Bod yn gyfrifol am gynnal a diweddaru cynnwys i fusnesau ar wefan y Fenter

7. Trefnu a chydlynu arddangosfeydd a gweithdai busnes a chyflwyno i gynulleidfaoedd busnes, yn cynnwys rheoli a monitro elfennau o'r gwaith hwn, ac adrodd ar effeithlonrwydd a gwerth am arian.

8. Cyfrannu yn frwdfrydig, effeithiol ac adeiladol at waith Menter Iaith Maelor.

9. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol yn ôl y galw.

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYMRU

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MENTER IAITH MAELOR

Proffil Person - Swyddog Prosiect

	Hanfodol	Dymunol	Asesu
Cymwysterau			
Gradd neu gymhwyster cyfatebol addas	√		C/T
Trwydded yrru gyfredol/y gallu i deithio yn ôl yr angen	√		C/T
Profiad			
Cydweithio gyda busnesau ac asiantaethau eraill yn lleol a chenedlaethol	√		C/Cy
Gweithredu a rheoli prosiectau yn effeithiol ac i derfynau amser tynn		√	C/Cy
Gwaith Marchnata gan gynnwys adnabod cyfleodd hyrwyddo a chynllunio gweithgareddau ac ymgyrchoedd		√	C/Cy
Profiad o weithio i fusnes masnachol		√	C/Cy
Sgiliau Cyfathrebu			
Rhugl yn llafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg	√		C/Cy/Cad
Y gallu i ddwyn perswâd yn effeithiol a chwrtais	√		C/Cy/Cad
Sgiliau Personol			
Hyderus a blaengar gyda'r gallu i ddelio'n ddoeth boed gyda chydweithwyr, partneriaid neu gleientiaid	√		Cy
Hunan ysgogiad a'r gallu i feddwl yn rhagweithiol	√		C/Cy
Sgiliau TG, yn cynnwys Excel, Word ac Outlook	√		C/Cy
Dychymyg creadigol a pharodrwydd i arbrofi		√	C/Cy
Rhinweddau Eraill			
Parodrwydd i deithio led led Sir Wrecsam ac a chynrychioli'r Fenter mewn cyfarfodydd,	√		Cy

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYMRU

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

arddangosfeydd a sioeau lle bo angen.			
Dealltwriaeth o faterion cyfoes Cymreig a Chymraeg, yn arbennig materion busnes/economi		√	C/Cy
Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol o bryd i'w gilydd	√		Cy

C=Ffurlen Cais; T=Tystiolaeth;Cy=Cyfweliad,Cad=Cyflwyniad

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MENTER IAITH MAELOR

Crynodeb o Amodau a Thelerau Swyddog Prosiect

Dwyieithrwydd mewn Busnes

Menter Iaith Maelor

Cytundeb Cyfnod Penodol hyd at 31ain Hydref 2013

Cyflog :- Y cyflog cychwynnol blynyddol ar gyfer y swydd hon yw Pwynt 29 - £24,646. Caiff y cyflog ei dalu yn fisol ar y 25ain o bob mis.

Ceir codiad cyflog blynyddol yn ogystal hyd at ben y raddfa pwynt 31 - £26,276

Hyd: Swydd cyfnod penodol hyd at 31ain Hydref 2013

Trefniadau Pensiwn: Mae Menter Iaith Maelor yn gweithredu cynllun pensiwn rhandaliad "stakeholder". Nid yw perthyn i'r cynllun yn orfodol, ond petaech yn dewis ymuno yna telir hyd at 6% i mewn i'r cynllun gan y cyflogwr a fydd yn gyfartal i gyfraniad y cyflogai.

Goramser: Ni thelir goramser ond mi fydd unrhyw amser ychwanegol yn cael ei ystyried fel TOIL(Time in lieu)

Oriau Gwaith: Yr oriau amodol ar gyfer staff llawn amser yw 37 awr yr wythnos, heb gynnwys toriadau prydau bwyd

Oriau Hyblyg: Mae'n rhydd i Staff y Fenter ddewis gweithio oriau hyblyg. O dan y cynllun mae rhaid i unigolyn weithio 37 awr yr wythnos (yn ddarostyngedig i'r hawl i gario amser drosodd) Mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun fod wrth eu gwaith yn ystod oriau craidd (10.00 – 11.45 a 14.00 – 15.00)

Gwyliau: Yn flynyddol cewch 24 diwrnod y flwyddyn gyda chyflog. Yn ogystal cewch gyfanswm o 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus.

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYMRU

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MENTER IAITH MAELOR

Cyfnod Prawf: Bydd eich swydd gyda Menter Iaith Maelor ar brawf am 6 mis

Costau Teithio: Telir costau teithio o 40c y filltir

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYMRU

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government